CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD DDYDD IAU 17 MEDI 2009 YN NHŶ CARADOG, CAERDYDD.

Comisiynwyr
Mr P J Wood (Cadeirydd)
Y Parch. H M Davies (Dirprwy Gadeirydd)
Mr J Bader (Aelod)

Ysgrifenyddiaeth
Mr E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr S Halsall
Mr D Carr
Mrs L Brough
Mrs A Prescott-Bird

1. DATGANIAD BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd. Datganodd y Cadeirydd fuddiant yn eitem 5 ar yr agenda, Amserlen Arolygon, gan fod ei wraig yn Gynghorydd Cymunedol ar gyfer Cymuned Creunant. **Cytunwyd** na fyddai'n rhaid i'r Cadeirydd adael yn ystod y drafodaeth.

2. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD AR 17 AWST 2009

2.1 Cytunwyd ar y rhain.

3. MATERION YN CODI

Arolygon Etholiadol

3.1 Cadarnhawyd dyddiadau ar gyfer cyflwyniadau Cyngor Powys a Chyngor Gwynedd.

3.2 Roedd yr Ysgrifennydd wrthi'n hysbysu Cynghorau nad oeddent eto wedi cyflwyno arolygon cymunedol i'r Comisiwn na fyddai modd bellach ystyried unrhyw gyfryw arolygon nes bod yr Arolwg Etholiadol wedi'i gwblhau.

3.3 Roedd Adroddiadau Cynigion Drafft ar gyfer Casnewydd, Castell-nedd Port Talbot a Sir Ddinbych wrthi'n cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

3.4 Roedd gwaith ar yr adroddiad Cynigion Drafft ar gyfer Sir y Fflint yn dal i fynd rhagddo, gan fod nifer sylweddol o gynrychiolaethau i'w hystyried.

3.5 Nid oedd Cyngor Sir Ynys Môn wedi cyflwyno ffigurau etholiadol rhagolwg cyflawn i'r Comisiwn o hyd. **Cytunwyd** y byddai'r ffigurau rhagolwg anghyflawn yn cael eu defnyddio i lunio fformwla ar gyfer cyfrifo ffigurau rhagolwg dros dro, ac y byddai'r adroddiad Cynigion Drafft yn cynnwys esboniad ynglŷn â sut y penderfynwyd ar y ffigurau.

Adroddiad Blynyddol a Gweithdai

3.6 Nodwyd na fyddai'r Dirprwy Gadeirydd yn gallu mynychu Gweithdy Merthyr oherwydd ymrwymiadau eraill. Nodwyd mai dim ond ar gyfer noson 6 Hydref cyn Gweithdy Wrecsam y byddai'r Aelod yn gallu aros yn Wrecsam.

4. AROLWG ETHOLIADOL RHONDDA CYNON TAF – YSTYRIED CYNLLUNIAU PELLACH

4.1 Ystyriodd y Comisiwn y cynlluniau diwygiedig ar gyfer Rhondda Cynon Taf y gofynnwyd amdanynt yn y cyfarfod blaenorol. **Cytunwyd** mabwysiadu cynllun 1a gyda'r cynnig ychwanegol i gyfuno adrannau etholiadol presennol Gorllewin Aberdâr / Llwydcoed a Dwyrain Aberdâr.

5. AMSERLEN AROLYGON

5.1 Amlinellwyd y sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r amserlen arolygon:

- Roedd Cynigion Drafft Casnewydd, Castell-nedd Port Talbot a Sir Ddinbych i'w cyhoeddi ar ddiwedd mis Medi, fodd bynnag, roedd hyn yn debygol o fod yn ddechrau mis Hydref erbyn hyn oherwydd yr amser a gymerir i gyfieithu ac argraffu tri adroddiad ar yr un pryd. Y terfyn amser i dderbyn cynrychiolaethau ar gyfer y cynigion hyn fyddai mis Rhagfyr 2009 felly, a fyddai'n gadael tri mis i lunio a chyhoeddi'r Cynigion Drafft er mwyn bodloni'r terfyn amser a osodwyd gan lythyr cylch gwaith Cynulliad Cymru;
- Byddai Cynigion Drafft ar gyfer Sir y Fflint yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod mis Hydref;
- Byddai Cynigion Drafft ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn cael eu drafftio a'u hanfon ymlaen at Aelodau i'w cymeradwyo'n electronig ar ôl i unrhyw ddiwygiadau'n codi yn sgil cyngor cyfreithiol gael eu hymgorffori. **Cytunwyd** mai ar unrhyw gyngor cyfreithiol a oedd yn ymddangos yn anarferol iddynt yn unig y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori ag Aelodau;
- Byddai cynlluniau ar gyfer Ynys Môn yn cael eu cyflwyno ar gyfer cyfarfod mis Hydref;
- Roedd y terfyn amser ar gyfer cynrychiolaethau cychwynnol ar gyfer arolwg Caerdydd wedi'i bennu, sef 22 Hydref;
- Roedd arolwg Merthyr Tudful wedi dechrau ar 16 Medi gyda dyddiad y terfyn amser ar gyfer derbyn cynrychiolaethau cychwynnol wedi'i bennu ar gyfer 19 Tachwedd;
- Roedd arolwg Pen-y-bont ar Ogwr i gychwyn ar 24 Medi ar ôl y cyflwyniad i'r cynghorau cymunedol;
- Roedd arolwg Conwy i gychwyn ar 28 Medi ar ôl y cyflwyniad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;
- Roedd y cyfarfod gyda Phrif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Powys i'w gynnal ar 25 Medi ac roedd y cyflwyniad i'r Cyngor i'w gynnal ar 22 Hydref, sef dyddiad cychwyn yr arolwg hefyd;
- Roedd y cyfarfod gyda Phrif Weithredwr Cyngor Sir Gwynedd a'r cyflwyniad i'r cynghorwyr i'w gynnal ar 9 Tachwedd. Nid oedd dyddiad wedi'i bennu ar gyfer y cyflwyniad i'r cynghorau cymunedol;
- Roedd Cynigion Terfynol ar gyfer arolwg Cymunedol Caerffili wedi'u cyhoeddi;
- Roedd Cynigion Terfynol ar gyfer arolwg Cymunedol Bro Morgannwg wedi'u cyhoeddi;
- Roedd yr adroddiad Cynigion Terfynol ar gyfer arolwg Cymunedol Blaenau Gwent wrthi'n cael ei argraffu a byddai'n cael ei gyhoeddi'n fuan;

- Byddai cynrychiolaethau ar gyfer y Cynigion Drafft Pellach ar gyfer arolwg Cymunedol Abertawe yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Hydref. Byddai drafft o'r adroddiad Cynigion Terfynol yn cael eu cyflwyno i gyfarfod mis Tachwedd;
- Derbyniwyd nifer sylweddol o gynrychiolaethau mewn perthynas ag arolwg Cymunedol Sir Benfro a threfnwyd ymweliad safle ar gyfer diwedd mis Medi i arolygu'r newidiadau arfaethedig; ac
- Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i gyflwyno'u harolwg cymunedol i gyfarfod gweithredol o'r Cyngor i'w gynnal yn ystod mis Medi.

6. ADRODDIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU – CYNNYDD AR WEITHREDU

6.1 Nodwyd bod rhan fwyaf yr argymhellion wedi'u gweithredu erbyn hyn, ac roedd y rheiny nad oeddent wedi'u cwblhau wedi'u hoedi oherwydd diffyg adnoddau sy'n angenrheidiol i'w gweithredu. **Cytunwyd** y byddai adroddiad cynnydd ar weithredu'r argymhellion yn cael ei ddarparu i Swyddfa Archwilio Cymru trwy Is-adran Nawdd y Comisiwn, ac y byddai'r goblygiadau adnoddau ar gyfer yr argymhellion heb eu gweithredu yn cael eu hamlygu yn yr adroddiad hwn.

7. CYNLLUN IAITH GYMRAEG A DIWEDDARIAD

7.1 Adroddwyd bod Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn wedi'u gynhyrchu ychydig yn hwyrach na'r blynyddoedd blaenorol, a bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi gofyn amdano, ac wedi awgrymu hefyd bod y Comisiwn yn cynnal arolwg o'r Cynllun Iaith Gymraeg. Roedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi awgrymu bod y Comisiwn yn mabwysiadu datganiad yn dweud yn glir bod y Comisiwn yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, fodd bynnag, roedd yr Aelodau o'r farn nad oedd angen hyn, am fod y Comisiwn yn cynnal ei holl fusnes yn ddwyieithog. Ystyriwyd bod y cynllun presennol yn ddigonol ar y cyfan, ac y gallai fod angen ymgynghori o bosibl wrth adolygu'r cynllun; byddai goblygiadau i adnoddau ynghlwm wrth hyn. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn mabwysiadu arferion ar gyfer eu cynllun a oedd uwchlaw'r gofynion safonol, fel penodi'r Dirprwy Gadeirydd fel hyrwyddwr Iaith Gymraeg y Comisiwn. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ymateb i Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn tynnu sylw at y ffaith fod y Comisiwn wedi mabwysiadu ymagwedd ragweithiol at yr iaith Gymraeg, ac esbonio nad oedd modd cynnal arolwg llawn o'r cynllun ar hyn o bryd oherwydd yr adnoddau y mae'n ofynnol eu cael ar gyfer yr arolwg etholiadol, ond y byddai arolwg llawn gydag ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar ôl cwblhau gwaith yr arolwg etholiadol.

8. DIGWYDDIAD YR ADRODDIAD BLYNYDDOL A GWEITHDAI

8.1 Fe wnaeth y Comisiwn ystyried y cynllun ar gyfer digwyddiadau'r Adroddiad blynyddol a Gweithdai a gynhyrchwyd gan yr hwylusydd. **Cytunwyd** y byddai amserlen yn cael ei mabwysiadu fel a ganlyn:

- 10.20 i 10.30 a.m. Croeso yn Gymraeg a Saesneg, a chyflwyniadau, gofyn bod cyfranogwyr o amgylch pob bwrdd yn cyflwyno'u hunain i'w gilydd (nid i'r Gweithdy cyfan);
- Adroddiad ar Arolygon Etholiadol yn cael ei gyflwyno gan y Cadeirydd;

- Cyflwyniad ar yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno gan y Dirprwy Gadeirydd (neu Aelod pan na fydd y Dirprwy Gadeirydd yn bresennol);
- Adborth ar Weithdai'r gorffennol yn cael ei gyflwyno gan y Cadeirydd; a
- Chynllun Strategol y Comisiwn yn cael ei gyflwyno gan yr Aelod.

8.2 Mewn perthynas â'r cwestiynau allweddol i'w trafod, awgrymwyd y byddai'r cwestiynau canlynol yn cael eu defnyddio ar gyfer y Gweithdai, yn amodol ar gysylltu â'r Hwylusydd:

- Beth yw pwyntiau cryf a phwyntiau gwan Cynllun Strategol y Comisiwn?;
- Beth yw'r materion allweddol yng Nghynllun Strategol y Comisiwn i'ch awdurdod chi?; a
- Beth yw eich barn gyffredinol ar berfformiad y Comisiwn.

8. 3 **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn adrodd sylwadau ac awgrymiadau'r Hwylusydd yn ôl i Aelodau yn ôl yr angen

9. UNRHYW FATER ARALL

9.1 Adroddwyd y byddai dau aelod o staff yr Ysgrifenyddiaeth yn mynychu digwyddiad Buddsoddwyr mewn Pobl (IIP) yn Birmingham, lle byddent yn cael eu llongyfarch ar y Comisiwn yn ennill statws IIP.

10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

10.1 Pennwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf fel a ganlyn:

Dydd Mercher 7 / 8 Hydref 2009 (ar ôl y Gweithdy)
Dydd Mawrth 24 Tachwedd 2009 (ar ôl y Gweithdy)
Dydd Mercher 16 Rhagfyr 2009 (ar ôl y Gweithdy).